# Adroddiad Arolygu

**Melanie Hughes**

**Y Felinheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Ebrill 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn egnïol, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Maent yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn effeithiol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rhoi gofal mewn ffordd garedig a chynnes. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu cyfleoedd chwarae a dysgu diddorol i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae wedi gwneud yn siŵr bod y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn briodol o ran oedran a'u bod o ansawdd da. Mae'r ardal awyr agored yn fawr ac yn galluogi'r plant i ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig ac yn gweithio'n galed. Mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers yr arolygiad diwethaf i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn mwynhau siarad am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef a'i ddangos. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau dangos ei hoff degan cerbyd a gwenodd wrth ddal yr injan dân yn uchel gan ddweud, *'nee no nee no'.* Mae'r plant yn mwynhau siarad â'r gwarchodwr plant am eu teuluoedd a siaradodd un plentyn yn frwdfrydig am ei frawd a'i chwaer a lle mae ei rieni / gofalwyr yn gweithio. Yn ystod y daith o'r ysgol, roedd y plant yn mwynhau cynnal sgyrsiau bywiog â'r gwarchodwr plant am weld y bobl y maent yn eu hadnabod yn eu cymuned a chael hwyl yn codi llaw arnynt.

Mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, gwnaethant ddangos sut maent yn storio eu heitemau personol wrth gyrraedd y lleoliad ac yn paratoi eu hunain yn dda i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gyfforddus wrth fynd at y gwarchodwr plant â'u ceisiadau ac ymatebir i'r rhain mewn modd amserol. Er enghraifft, ymatebodd y gwarchodwr plant i gais dieiriau plentyn am gysur drwy roi coflaid iddo. Gwnaeth hyn i'r plentyn wenu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, roedd plentyn yn rhannu'r teganau ceir gyda'i ffrind ac yn cymryd ei dro i gwblhau jig-so. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda er mwyn tacluso eu teganau. Maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser prydau ac yn ymarfer bod yn gwrtais.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn dda. Er enghraifft, buont yn datblygu eu dychymyg yn yr ardal chwarae rôl ac yn creu golygfa siop hyfryd gydag adnoddau perthnasol. Bu'r plant yn mwynhau enwi'r adnoddau bwyd ac yn dweud wrth y gwarchodwr plant bod pysgodyn yn 49c i'w brynu. Mae'r plant yn mwynhau cymryd sylw o'r adar yn yr ardd ac ymarfer enwi'r adar gyda'r gwarchodwr plant. Yn ystod sesiynau chwarae yn yr awyr agored, dangosodd y plant arloesedd wrth drosglwyddo dŵr o un cynhwysydd i'r llall. Er enghraifft, buont yn defnyddio llwyau, llwyau dwfn, bwcedi a chan dyfrio. Mae'r plant yn mwynhau arbrofi wrth chwarae gyda dŵr a thywod. Roeddent yn mwynhau tapio'r dŵr gyda llwy i greu sblash a dangosodd eu ffrindiau eu bod yn gwneud bisgedi siocled gyda thywod.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Er enghraifft, wrth ddychwelyd i'r lleoliad ar ôl bod am dro, maent yn tynnu eu hesgidiau ac yn eu gosod yn daclus mewn rhes gyda'u ffrindiau. Ar ôl bod am dro ac yn ystod amseroedd bwyd, maent yn helpu eu hunain i ddŵr yfed ac yn arllwys eu diodydd eu hunain yn llwyddiannus. Yn ystod sesiynau chwarae yn yr awyr agored, bu un o'r plant yn canolbwyntio ac yn dangos diddordeb estynedig mewn archwilio'r clychau gwynt a chreu synau gwahanol. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddi ffordd gynnes a charedig o roi gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob un o'r plant. Mae'n gwerthfawrogi eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau yn gyson.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n deall ac yn gweithredu'r rhan fwyaf o'i pholisïau a'i gweithdrefnau'n dda er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n cofnodi presenoldeb y plant yn gyson fel rhan o'i harferion diogelu ehangach. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd sy'n addas ar gyfer oedran y plant yn ei gofal. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn amseroedd bwyd er mwyn datblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol, ond ni chaiff tywelion dwylo / papur unigol eu darparu er mwyn i'r plant sychu eu dwylo. Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fwyta'n iach ac yn darparu dŵr yfed ffres. Mae wedi gwneud gwelliannau i'r broses o gofnodi damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae'r cofnodion hyn wedi cael eu llofnodi gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rhain wedi cael eu dyddio'n gywir. Yn ystod ein hymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith. Mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud gwelliannau i'r broses newid cewynnau ac mae'n dilyn y canllawiau rheoli heintiau yn rhannol. Fodd bynnag, nid oedd y gwarchodwr plant yn gwisgo ffedog untro wrth newid cewyn plentyn nad oedd yn fudr. Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn a chyflwynodd ei pholisi diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r arfer o wisgo cyfarpar diogelu personol cyflawn wrth newid pob cewyn. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael preifatrwydd a bod eu hurddas yn cael ei barchu wrth newid eu cewynnau neu wrth ddefnyddio'r toiled.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ac yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith er mwyn helpu'r plant i ddysgu cymryd eu tro, rhannu, cydweithredu a bod yn garedig gyda'u ffrindiau. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i fynegi eu hunain yn gadarnhaol. Mae'n gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfleoedd cyson i ryngweithio'n gadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn ffordd ymatebol i gynllunio gweithgareddau. Mae'n gwrando ar ddewisiadau'r plant ac yn eu parchu ac yn rhoi'r cyfle iddynt gyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn dda. Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n dechrau cofnodi arsylwadau ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud, ac yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Mae'n siarad Cymraeg sylfaenol â'r plant drwy gydol y dydd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r iaith. Roedd y gwarchodwr plant wedi trefnu gweithgaredd hyfryd i feithrin

sgiliau lleferydd ac iaith y plant. Gofynnodd iddynt ddod o hyd i'r llun ar y pos llawr a oedd yn dechrau gyda llythyren o'r wyddor a alwyd ganddi. O ganlyniad, roedd y plant yn ymarfer ynganu'r llythyren a'r gair a oedd yn gysylltiedig â'r llun. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, gofynnodd y gwarchodwr plant gwestiynau er mwyn meithrin sgiliau datrys problemau'r plant. Er enghraifft, gofynnodd iddynt sut y byddent yn llenwi'r cwpanau â dŵr ac i feddwl pa gynhwysydd fyddai orau iddynt ei ddefnyddio. Cyflwynodd y gwarchodwr plant ffotograffau o'r plant yn mwynhau ymweliadau ag ardaloedd lleol, yn chwarae ar y traeth ac yn mynd am dro i'r goedwig a oedd yn helpu i godi eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd lleol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers ein hymweliad blaenorol ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod system ar gyfer rheoli mynediad i'r safle a chedwir cofnod o ymwelwyr. Mae'n trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae'r gwarchodwr staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac wrth eu hebrwng wrth fynd am dro. Mae'n atgyfnerthu'r rheolau diogelwch ffordd yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad. Mae wedi gwella ei hasesiadau risg o'r safle, y gweithgareddau a'r teithiau ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i leihau risgiau posibl. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau asesiad risg tân Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gwarchod plant ac mae'n gwneud yn siŵr y caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth y plant o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r gwarchodwr plant wedi cael cyfarpar newydd ar gyfer y blwch cymorth cyntaf ac mae'r cyfarpar hwn yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwella'r ardal chwarae dan do gan alluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain a datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer yr ystodau oedran dan sylw. Mae'n sicrhau bod dodrefn o ansawdd da, sy'n briodol i oedran y plant, ar gael iddynt, yn ogystal â chyfarpar a theganau dan do ac yn yr awyr agored er mwyn ysgogi eu diddordebau.

Mae'r gwarchodwr plant yn storio teganau, adnoddau a chyfarpar ar lefel isel, sy'n golygu y gall y plant gael gafael arnynt yn rhwydd ac y gallant ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef. Mae wedi trefnu ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn. Mae'r gwarchodwr plant yn arddangos llyfrau mewn ffordd ddeniadol, gan wahodd y plant i gymryd diddordeb ynddynt a'u darllen. Mae'n darparu deunyddiau a chynnyrch tŷ wedi'u hailgylchu er mwyn datblygu chwilfrydedd naturiol y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant am y gymdeithas ehangach ac i godi ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd da i'r plant er mwyn datblygu eu chwarae a'u dysgu yn yr awyr iach. Mae'r ardal awyr agored yn fawr ac yn cynnwys tŷ chwarae pren, cegin ac adnoddau cysylltiedig, clychau cerddorol, a gweithgareddau chwarae tywod a dŵr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n galed ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae'n rheoli ei lleoliad yn dda.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol er mwyn helpu'r rhieni / gofalwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y gwasanaeth. Mae'n adolygu ei pholisïau yn rheolaidd ac yn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae wedi gwella'r polisi diogelu sy'n seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Gall y gwarchodwr plant ddangos ei bod yn mynd ati i roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant ar waith ac aeth ati i lunio bwydlen wythnosol i'w rhannu â'r rhieni / gofalwyr yn dilyn ein hymweliad. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'n sicrhau ei bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys. Mae wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth i AGC.

Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n casglu barn y rhieni / gofalwyr a'r plant er mwyn llywio ei hadroddiad nesaf ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Nid yw'r adroddiad diweddaraf y mae wedi'i lunio wedi newid ers ein hymweliad blaenorol ac nid yw'n cynnwys y sylwadau a wnaed gan y rhieni / gofalwyr na'r plant yn flaenorol i'w helpu i fesur llwyddiant y lleoliad fel rhan o'r prosesau hyn i werthuso'r gwasanaeth yn llawn ac amlinellu'r camau a gymerwyd i wneud gwelliannau.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd yn ôl yr angen ac mae'r gwarchodwr plant ac aelodau'r cartref yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol yn ei rôl wrth ofalu am blant. Mae wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer oedrannau'r plant yn ei gofal. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant i sicrhau ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr am gynnydd dyddiol eu plant ar lafar a thrwy anfon negeseuon atynt. Dangosodd y gwarchodwr plant ffotograffau o'r plant yn mwynhau eu hamser y tu allan yn y gymuned, yn mynd am dro ac yn ymweld ag ardaloedd lleol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned leol a meithrin eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau'n flynyddol a bod unrhyw newidiadau i'r safle neu anghenion y plant yn cael eu hadolygu. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod digon o fesurau ar waith i leihau'r risgiau a nodwyd ac y cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 30 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cadw cofnod dyddiol o enwau'r plant a'u horiau presenoldeb. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cadw cofnodion ffurfiol o ddamweiniau a digwyddiadau, a'u bod yn cael eu cydnabod gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod cofnodion meddyginiaeth a ffurflenni cydsynio rhieni / gofalwyr ar gyfer rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau fel eu bod yn cynnwys manylion clir. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant a bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd. | Cyflawnwyd |
| 38 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cynnal ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân bob 6 mis o leiaf, gan gydnabod bod y plant yn cael budd o ymarferion mwy rheolaidd a bod y cofnodion hyn yn cael eu cadw mewn cofnodlyfr tân. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y system wresogi olew yn cael ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau ac atal peryglon posibl i'r plant. | Cyflawnwyd |
| 6 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod ganddi dystysgrif fanwl gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn gwneud trefniadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i gyflwyno ei thystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Cyflawnwyd |
| 20 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod gan bob person sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac yn byw yn y fangre berthnasol dystysgrif fanwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael os bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gofyn amdani. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y gweithdrefnau golchi dwylo a newid cewynnau yn unol â Chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod Plant a Chylchoedd Chwarae). | Cyflawnwyd |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth greu'r polisi, mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant fod yn gyfarwydd â chanllaw statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod safbwyntiau'r plant, rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu hystyried wrth adolygu ansawdd y gofal, er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn a nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod pob ffurflen damweiniau a digwyddiadau wedi'i dyddio'n gywir. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Ychwanegu at yr adnoddau er mwyn meithrin dealltwriaeth y plant o'u cymdeithas ehangach a hyrwyddo eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod tywelion papur neu dywelion dwylo unigol ar gael i'r plant sychu eu dwylo. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/11/2024